# Adroddiad ar

# Feithrinfa Silwli Nursery Ltd

**24 Park Road**
**Yr Eglwys Newydd**

**Caerdydd**
**CF14 7BQ**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Meithrinfa Silwli Nursery Ltd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Meithrinfa Silwli Nursery Ltd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Charlotte Forrester |
| Person â gofal | Kimberley Hellyar a Sophie Lewis |
| Nifer y lleoedd | 58 |
| Amrediad oedran y plant | 6 mis – 4 blwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 42 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | Dim |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Rhwng 8.00 y.b. a 6.00 y.h. dydd Llun i ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Medi 2023 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 09/09/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/06/2024 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Rhagorol** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Rhagorol** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Dylai'r lleoliad barhau ar ei daith gwella. Nid oes unrhyw argymhellion penodol yn deillio o'r arolygiad hwn

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn parhau ar ei daith gwella.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae plant yn teimlo'n hapus a diogel yn y lleoliad ac yn gwybod eu bod yn cael eu parchu gan bob ymarferydd. Mae ganddynt lais arbennig o gryf a gwnânt gyfraniad eithriadol at yr hyn maent am ei ddysgu a'r ffordd y maent yn chwarae. Maent yn dewis eu hadnoddau eu hunain yn annibynnol ac mae hyn yn eu galluogi i ddatblygu eu medrau chwarae creadigol. Er enghraifft, maent yn casglu dail a phridd a'u cymysgu â dŵr i wneud crempog yn y gegin fwd. Mae plant yn cyfleu eu hanghenion personol yn hynod o effeithiol o oed ifanc iawn, gan ddatblygu eu ffordd eu hunain o gyfathrebu gan ddefnyddio ystumiau yn lle geiriau, pan fo angen. Er enghraifft, mae bron bob un o'r plant ifanc yn gwneud penderfyniadau fel ymestyn am ffedog a'i phasio i ymarferydd pan maent eisiau chwarae yn y twba glŵp. Enghraifft arall yw'r ffordd maent yn torchi eu llewys a golchi a sychu eu dwylo eu hunain heb unrhyw gymorth, pan fo angen. Y plant sy'n penderfynu ble maent am chwarae a phryd maent am wneud hynny, gan ddefnyddio'r amgylcheddau dysgu dan do ac awyr agored yn hynod effeithiol a chreadigol.

Mae plant o bob oed yn setlo'n arbennig o gyflym ar ddechrau bob sesiwn ac yn teimlo'n hapus a diogel wrth chwarae'n hyderus ochr yn ochr â'u ffrindiau. Mae bron bob un yn mwynhau eu chwarae ac yn gwneud hynny'n llawn cyffro. Er enghraifft, mae grŵp o blant yn chwarae'n ddychmygus â'r dinosoriaid yn yr ardal tywod, cyn eu symud a'u cuddio yn y boncyff pren. Maent yn ymateb yn hynod gadarnhaol i system y lleoliad o'u paratoi i newid o un weithgaredd i'r llall drwy ymateb yn gyson i arwyddion disgiau coch, melyn a gwyrdd. Mae ymarferwyr yn cyflwyno disg gwyrdd ar ddechrau gweithgaredd, un melyn pan mae'n amser paratoi i ddod â gweithgaredd i ben ac un coch pan mae'n amser symud i weithgaredd newydd.

Mae plant o bob oed yn rhyngweithio'n arbennig o dda â'i gilydd ac ymarferwyr. Mae llawer yn hynod garedig wrth ei gilydd ac yn feddylgar o anghenion plant eraill. Er

enghraifft, mae plentyn yn helpu ei ffrind i wisgo sbectol diogelwch cyn dechrau defnyddio llif yn yr ardal gwaith coed. Mae gan y rhan fwyaf ddiddordeb brwd yn yr hyn mae eu ffrindiau yn ei wneud ac yn cynnig help iddynt. Er enghraifft, mae plentyn yn dal llaw ei ffrind wrth iddi groesi'r bont bren ac yna'n dathlu ei llwyddiant wedi iddi gyrraedd yr ochr draw.

Mae bron bob un o'r plant yn weithgar ac yn dysgu'n effeithiol drwy chwarae. Maent yn chwilfrydig ac yn arbrofi â diddordeb brwd yn y dŵr a'r mwd a chreu nifer o wahanol anifeiliaid o glai. Maent yn mwynhau cyfleoedd cyson i ddatblygu eu medrau corfforol, fel cario planciau pren i bwyso ar flociau i greu llithren, ac yna'i ailgodi wedi iddo ddisgyn i'r llawr.

Mae bron bob un o'r plant yn datblygu medrau dysgu annibynnol yn dda iawn, gan gynnwys y rhai ieuengaf. Maent yn torri llysiau ac yn paratoi melon ar gyfer eu byrbryd heb lawer o gymorth. Mae bron bob un yn dewis eu byrbryd eu hunain ac yn rhoi'r hyn sy'n weddill i'w ailgylchu pan fyddant wedi gorffen. Mae bob un o'r plant yn gweini bwyd i'w platiau eu hunain cyn pasio'r llwy weini i'w ffrindiau. Maent yn aros yn amyneddgar hyd nes bod pawb ar y bwrdd wedi gweini eu cinio cyn dechrau bwyta.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad:  Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn cefnogi iechyd a lles plant yn effeithiol iawn. Maent yn ymateb yn gydwybodol ac effeithiol i amrywiaeth addas o weithgareddau dysgu proffesiynol ac yn dilyn arferion rhagorol mewn perthynas â diogelu plant. Maent yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt bryderon am ddiogelwch plentyn ac yn gweithredu'n brydlon, pan fo angen. Mae ymarferwyr yn cymryd sylw arbennig o bob agwedd ar hylendid. Er enghraifft, maent yn gwisgo menig a ffedogau i baratoi byrbrydau iach. Maent yn annog plant i fwyta ac yfed yn iach a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn ddyddiol. Maent yn sicrhau y caiff unrhyw alergeddau ac anghenion dietegol y plant eu cofnodi er mwyn sicrhau y gall bob un ohonynt fwynhau eu prydau bwyd yn ddiogel. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion clir ac effeithiol ar yr hyn mae'r plant yn ei gyflawni'n ddyddiol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn gyson. Er enghraifft, maent yn cofnodi anghenion gofal iechyd y plant, eu presenoldeb ac unrhyw fân anafiadau sydd eisoes yn bodoli yn glir a chywir, sy'n eu helpu i ddarparu lefel neilltuol o ofal iddynt. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae ymarferwyr yn cyfarch y plant mewn modd hapus a chariadus wrth iddynt gyrraedd y lleoliad, ac yn rhoi digon o amser iddynt ymgartrefu a chwarae. Maent yn ymddwyn mewn modd meddylgar, hamddenol ac addfwyn yng nghwmni'r plant a bob amser yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad yn gadarnhaol ac mewn modd tyner a gofalgar. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn cefnogi'r plant yn dda iawn ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn llwyddiannus dros ben. Maent yn siarad â'r plant

mewn modd sensitif ac yn eu canmol yn effeithiol am wneud eu gorau a llwyddo â’u tasgau. Mae hyn yn eu hannog i ddyfalbarhau â'u tasg am gyfnodau estynedig. Mae ymarferwyr yn cadw llygad barcud ar anghenion y plant. Er enghraifft, maent yn sylwi’n syth pan mae angen sychu eu trwyn neu dorchi eu llawes. Maent yn atgoffa'r plant o reolau syml, fel bod yn ofalus er mwyn peidio â thasgu dŵr dros eu ffrindiau a gwisgo ffedog er mwyn sicrhau na fyddant yn gwlychu. Maent yn gwybod yn reddfol pryd i gamu'n ôl a rhoi cyfle i'r plant ddarganfod pethau drostynt eu hunain. Mae hon yn nodwedd gref iawn o waith yr ymarferwyr.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn arbennig o effeithiol, gan ddefnyddio hiwmor ac anogaeth yn barhaus. Maent yn hynod fedrus wrth gynllunio yn ymatebol, gan ddilyn diddordebau a syniadau’r plant ym mhob gweithgaredd. Mae’r pwll mwd wedi bod yn gwch, llyn pysgota ac yn afon dros gyfnod wrth iddynt ddilyn syniadau’r plant. Maent yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac yn dangos balchder ac angerdd wrth drafod cyflawniadau’r rheini y maent yn weithwyr allweddol iddynt. Maent yn mynd i’r afael ag anghenion bob plentyn, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae ganddynt bartneriaeth gynhyrchiol iawn â rhieni. Maent yn trafod anghenion a chyflawniad eu plant gyda nhw’n rheolaidd er mwyn i’r naill a’r llall gaffael dealltwriaeth gadarn o anghenion plentyn. Mae hyn yn sicrhau eu bod nhw’n darparu lefel hynod effeithiol o ofal iddynt.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Rhagorol**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth hynod gadarn o ddatblygiad plant ac egwyddorion y cwricwlwm i blant bach. Maent yn defnyddio’r wybodaeth hon yn llwyddiannus i gynllunio gweithgareddau sy’n seiliedig ar syniadau’r plant a thrwy hynny’n datblygu eu medrau rhifedd a llythrennedd cynnar yn effeithiol iawn. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae ymarferwyr yn cynllunio’n effeithiol yn y foment er mwyn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol y plant. Maent yn gwybod yn union pa bryd sy’n addas iddynt roi saib ar y chwarae i ddatblygu cysyniad penodol, fel annog plentyn i gyfri darnau wrth greu model. Maent yn rhoi cyfleoedd naturiol, ysgogol a diddorol i blant ddatblygu eu chwilfrydedd mewn amgylchedd cyffrous, naturiol a chreadigol iawn. Er enghraifft, maent yn annog plant i godi boncyff yn yr ardd i weld pa drychfilod sy’n cysgodi oddi tano.

Mae ymarferwyr yn caniatáu i blant gymryd risgiau priodol wrth chwarae yn y gwahanol ardaloedd, wrth ddringo coed yn yr ardd er enghraifft, neu wrth adeiladu llwybr antur. Mae hyn yn caniatáu iddynt ddod yn archwilwyr hyderus o'u hamgylchedd. Wrth ganolbwyntio ar yr hyn mae’r plant yn ei wneud a’i ddweud, mae ymarferwyr yn dyfeisio tasgau cyffrous sy'n datblygu dealltwriaeth plant o'r byd y maent yn byw ynddo. Er enghraifft, maent yn eu hannog i roi dŵr dros fwydyn sy’n sychu yn yr ardd gan nad yw yn y pridd bellach.

Mae ymarferwyr yn siaradwyr Cymraeg hyderus. Maent yn darparu cyfleoedd cyfoethog i blant glywed a defnyddio geirfa ac ymadroddion safonol Gymraeg wrth gyfathrebu â nhw. O ganlyniad, mae bron bob un plentyn yn datblygu eu medrau llafar Cymraeg yn dda o oed cynnar.

Mae ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth plant o draddodiadau a dathliadau Cymru yn effeithiol a pharhaus. Er enghraifft, maent yn cynnal sioe Dydd Gŵyl Dewi yn yr ardd, sy'n rhoi cyfleoedd i blant berfformio a chanu caneuon Cymraeg fel Calon Lân neu'r Anthem Genedlaethol i'w rhieni. Mae hyn yn eu hannog i fod yn falch o'u Cymreictod.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant yn llwyddiannus iawn. Maent yn datblygu gweithgareddau sy'n eu hannog i ddefnyddio'u chwilfrydedd a chanolbwyntio ar ryfeddodau'r byd o'u cwmpas wrth ddysgu am natur yn ardal y goedwig a chreu hunanbortread allan o ddail a brigau. Mae ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar annog gonestrwydd, tegwch, a pharch, gan sicrhau bod plant yn deall bod angen iddynt drin ei gilydd, eu hamgylchedd a'u hadnoddau yn ofalgar. Maent yn annog y plant i ddatblygu eu medrau cymdeithasol yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys eu hannog i helpu ei gilydd neu i gymryd tro yn ystod gweithgareddau. Maent yn gwahodd artistiaid a pherfformwyr cerddorol fel chwaraewr 'bagpipes' i'r lleoliad yn achlysurol i gyfoethogi'r ddarpariaeth i'r plant ac i godi eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

Mae gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o'r holl blant, gan gynnwys yr ychydig iawn sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn amrywiol feysydd. Maent yn adnabod y plant yn dda ac yn deall eu hanghenion datblygiadol yn drylwyr.

Er mwyn sefydlu gwaelodlin, mae ymarferwyr yn gweithredu asesiad cychwynnol ar bob plentyn wedi iddynt setlo yn y lleoliad. Mae gan bob un weithiwr allweddol sy'n cadw golwg manwl ar eu datblygiad ac adnabod y camau nesaf yn eu dysgu. Mae hon yn arfer hynod effeithiol. Mae amrywiol ymarferwyr yn cyfannu at y cofnod hwn hyd yn oed os nad yw'n weithiwr allweddol i'r plentyn penodol hwnnw. Mae hyn yn sicrhau bod y camau nesaf yn diwallu anghenion a diddordebau'r plant, gan gynnwys darparu cymorth ychwanegol, lle bo angen. Mae ymarferwyr yn darparu gwybodaeth gyson i rieni ar yr hyn mae eu plant yn ei wneud yn ystod y dydd, ynghyd â'r cynnydd maent yn ei wneud mewn meysydd penodol. Maent yn annog rhieni i roi gwybod i ymarferwyr am unrhyw ddigwyddiadau penodol ym mywyd y plant. Er enghraifft, pan fyddant wedi cyflawni rhywbeth penodol gartref am y tro cyntaf. Mae hynny'n eu galluogi i drafod a dathlu y llwyddiannau hynny gyda'r plant.

**Yr amgylchedd:  Rhagorol**

Mae gan arweinwyr fesurau, polisïau a gweithdrefnau cynhwysfawr ac effeithiol i sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn deall eu cyfrifoldebau'n llawn. Maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac mewn cyflwr da iawn y tu mewn ac yn yr awyr agored. Mae arferion hylendid yn gyson dda, sy'n lleihau'r risgiau i iechyd bob un. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg cyffredinol ac asesiadau risg tân hynod o effeithiol a chynhwysfawr, sy'n cael eu hadolygu'n gyson, a chaiff gweithdrefnau brys eu cyfathrebu'n glir. Maent yn ystyried risgiau bob gweithgaredd, fel ardal yr ysgol goedwig a'i le tân agored mewn perthynas ag unrhyw beryglon posibl. Mae arweinwyr yn cadw dogfennaeth glir lle caiff unrhyw ddamwain sy'n digwydd yn yr amgylchedd ei chofnodi a'i monitro i sicrhau nad oes patrwm yn datblygu a bod angen addasu'r ddarpariaeth. Mae cymarebau rhwng ymarferwyr a phlant bob amser yn addas ym mhob ardal. Pan fo angen, mae ymarferwyr yn cydweithio'n hyblyg gan symud o un ardal i'r llall yn unol â dewis plant. Gan fod y drysau'n agored i'r plant yn

barhaus, ac mae ganddynt ryddid i grwydro o un man i'r llall, mae arweinwyr yn sicrhau bod lefelau uchel o oruchwylio a chyfathrebu i sicrhau bod bob un yn ddiogel.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân a chroesawgar, ac mewn cyflwr arbennig o dda. Mae ystod eang o ddodrefn ac adnoddau eraill o ansawdd neilltuol ar gael o fewn cyrraedd y plant y tu mewn ac yn yr awyr agored, sy'n ysgogi eu diddordebau a'u dychymyg yn barhaus. Mae cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn cael ei hyrwyddo'n bwrpasol. Mae'r ardaloedd tu mewn yn lân, ac wedi eu haddurno mewn lliwiau niwtral. Maent wedi'u trefnu'n dda a'u cyflwyno gyda gofal, gan gynnig cyfleoedd pwrpasol ar gyfer darparu profiadau dysgu cyfoethog i blant mewn gwahanol ystafelloedd, gan eu hannog i fod yn ddysgwyr chwilfrydig a hyderus.

Mae'r ystafelloedd wedi eu henwi'n briodol ac mae bob un yn cynnig profiadau gwahanol i blant fel coginio, adeiladu, celf a chrefft, rhifedd, chwarae dychmygus, yn ogystal â man cysurus iddynt ymlacio ar adegau tawel. Mae'r ardal allanol yn ddiogel ac yn darparu amrywiol fannau chwarae i'r plant, gan gynnwys rhai cysgodol, pan fo'u hangen. Mae ymarferwyr yn cymryd eu tro i oruchwylio un ardal y diwrnod, y tu mewn a thu allan. O ganlyniad, mae bob ymarferwr yn rhyngweithio â phob un plentyn yn rheolaidd a thros gyfnod.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Rhagorol**

Mae gan arweinwyr weledigaeth hynod gadarn a chytûn ar gyfer y lleoliad. Mae'r weledigaeth yn seiliedig ar ddarparu gofal cyfeillgar, cefnogol a rhyngweithiol sy'n diwallu anghenion cyfannol plant mewn amgylchedd cartrefol ac ysgogol. Maent yn sicrhau bod ymarferwyr yn ofalgar iawn o'r plant ac yn eu cydnabod fel unigolion bach unigryw.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant cadarn o ddiogelwch yn barhaus ar gyfer y lleoliad. Maent yn dilyn prosesau recrwtio diogel, cadarn ac amserol, ac yn darparu arweiniad cadarn i staff newydd trwy eu cotsio a'u mentora yn effeithiol. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau aruchel o'u hunain ac o ymarferwyr. Mae arweinwyr yn rheoli a goruchwylio bob ymarferydd yn gydwybodol ac yn eu cefnogi'n effeithiol iawn, gan roi cyfleoedd dysgu proffesiynol cyfoethog ac amserol iddynt a'u hannog i wneud eu gorau dros y plant. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn glir ac yn gweithredu'n hynod lwyddiannus mewn perthynas â nodau, cynlluniau a chyfrifoldebau strategol y lleoliad. Mae hyn yn sicrhau bod y lleoliad yn lle hynod hapus lle mae'r ymarferwyr yn teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol a chynaledig i werthuso gwaith y lleoliad. Mae'r rhain wedi hen sefydlu ac yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol sy'n nodi cryfderau cyfredol y lleoliad yn gywir ynghyd ag ychydig iawn o feysydd mae arweinwyr yn teimlo sydd angen eu gwella. Mae arweinwyr yn ystyried barn ymarferwyr, rhieni a gofalwyr fel rhan greiddiol o'r broses hunanwerthuso. Maent yn defnyddio deilliannau'r gweithdrefnau hyn i osod blaenoriaethau priodol ar gyfer gwella ac yn cyflwyno newidiadau i'r ddarpariaeth sy'n cynnal eu gwaith yn hynod lwyddiannus.

Mae gan arweinwyr hanes cadarn o weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i wella gofal, lles a dysgu plant. Mae ganddynt berthynas effeithiol â'r rhieni a gofalwyr, staff

yr ysgol gynradd leol, a swyddog datblygu'r awdurdod lleol. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gweithio'n hynod lwyddiannus gyda rhieni i ddysgu am anghenion a dewisiadau unigol y plant cyn iddynt gychwyn ac yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Maent yn cynnal cyfarfodydd gyda darpar rieni cyn i'w plentyn ddechrau i ddysgu am ddiddordebau a hoff bethau'r plant. Trwy gyfrwng apiau a negeseuon testun, maent yn rhannu gwybodaeth gynhwysfawr a chyson gyda rhieni er mwyn iddynt ddod i wybod am yr hyn mae eu plentyn yn ei wneud yn ddyddiol, ac am y cynnydd mae'n ei wneud dros gyfnod. Maent yn rhoi cyfleoedd defnyddiol i rieni roi adborth, ac mae arweinwyr yn ystyried eu hymatebion gan addasu'r ddarpariaeth, lle bo angen. Mae llyfrgell syml wrth y fynedfa i rieni fenthyca llyfrau i'w darllen gyda'u plant gartref. Mae arweinwyr hefyd yn cydweithio'n gynyddol effeithiol â staff yr ysgol gynradd leol i gefnogi'r broses drosglwyddo pan ddaw'r amser i blant ddechrau yno. Mae athrawes o'r ysgol yn ymweld â'r lleoliad yn rheolaidd i drafod anghenion y rheini fydd yn dechrau yn yr ysgol yn y dyfodol agos. Mae swyddog datblygu'r awdurdod lleol yn ymwelydd cyson ac mae arweinwyr ac ymarferwyr yn gwerthfawrogi ei chyngor a'i chefnogaeth.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
| --- | --- |
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 06 o Awst 2024